

## Nid er mwyn elw ond llawer mwy cyfoethog

*Y mae cymdeithasau lleol, cwmnïau ac unigolion yn Abergwaun wedi bod yn darparu cymorth a oedd wir ei angen ers mis Mawrth. Y mae Jeremy Martineau yn gobeithio bydd y ddarpariaeth hon yn parhau yn y dyfodol er budd pawb*

Datblygodd yn hyn a ddechreuodd fel ymateb byrffyr i ofynion yn rhai yn hunan-ynysu i fod yn system drefnus i ddsbarthu parseli bwyd i ychwanegu at yr hyn oedd y Banc Bwyd yn ei wneud yn barod. Ymateb rheolaidd oedd 'diolch am fy helpu gyda siopa ond hefyd fy nghyfarwyddo at rywun i siarad â nhw tra mod i'n hunan-ynysu'. Ac oddi wrth y gwirfoddolwyr 'Rwyf fi wedi mwynhau gwirfoddoli yn fawr iawn, cyfarfod â phobl newydd a sgwrsio â chymdogion sy mor ddiolchgar'.



Y mae'r Rhewgell Gymunedol, a sefydlwyd i leihau bwyd dros ben a fyddai'n mynd i'r tirlenwad yn ddiangen, hefyd wedi ymuno ac fe ffurfiwyd Cefnogaeth Bwyd Abergwaun a Gwdig. Y mae'r Trefnydd Lesley yn dweud 'Yr ydym yn cynorthwyo y rhai sy'n disgwyl am hydoedd am daliadau Credyd Cynhwysol, sawl un sy'n cael eu cyflogi gan rai sy wedi mynd i'r wal a'r hunan-gyflogedig nad ydynt yn alluog i dderbyn help gan gynlluniau llywodraeth. Y mae llawer o bobl nad oedd wedi derbyn cymorth cyn hyn yn cael eu synnu gan cyn lleied yw'r hyn i fyw arno.' Y mae dros 45 o cartrefi bregus yn dal i gael eu cynorthwyo yn y modd hwn, i lawr o 74 ar ei uchaf.

Crewyd rhestr o fusnesau lleol gan Gydgymorth Abergwaun, yn eiddgar i barhau i roi gwasanaeth i'w cwsmeriaid, naill ai drwy archebu a chasglu neu drwy gludo i'r cartref. Rhoddwyd y wybodaeth hon i bob tŷ – tua 2000 o gartrefi.

Diweddarwyd y wybodaeth gan Dwristiaeth a Siambr Busnes Abergwaun a Gwdig wrth i mwy o fusnesau ymuno neu newid eu trefniadau. Y mae newidiadau yn cael eu cyhoeddi'n rheolaidd ar 6 dudalen Facebook lleol.

'Y mae hyn wedi agor ein llygaid i'r pleser o gael prydau wedi eu cludo i ni' meddai Michael a Pam. 'Fydden ni ddim fel arfer wedi mynd allan am bryd o fwyd, ond yr ydym yn gweithio ein ffordd drwy'r holl ddarparwyr; mae'n gam gwych y gobeithiwn fydd yn parhau.'

Y mae Paul, perchennog caffi lleol hir-sefydlog yn rhannu ei stori. 'Yn ystod ein diwrnod cyntaf o ddsbarthu cwrddon ni â chleient na fu erioed yn ein bwyty. Eglurodd mai fi oedd y person

cyntaf i gael sgwrs gydag ef drwy'r wythnos; roedd e mor ddiolchgar a gwerthfawrogol fel y daeth dagrau i'm llygaid wrth wrando ar ei stori. Er i ni gynnig y gwasanaeth yn ddi-elw, y mae'r gawerthfawogiad a'r diolch wedi ein gwneud yn llawr mwy cyfoethog. Y mae nawr gennym 62 o gleientau rheolaidd yn derbyn prydau, rhai saith diwrnod yr wythnos, rhai am un, dau, tri neu bedwar.'

Gweddiwn am arweiniad wrth i'r dyfodol ansicr ein wynebu.